**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (FFORDD YMUNO TUA'R GOGLEDD YN FFYNNON TAF, RHONDDA CYNON TAF) (GWAHARDDIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2023**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith a chaniatáu i lwythi anwahanadwy annormal (fel y diffinnir "abnormal indivisible loads" yng Ngorchymyn Cerbydau Ffyrdd (Awdurdodi Mathau Arbennig) (Cyffredinol) 2003) gael eu cludo'n ddiogel ar gefnffordd yr A470 yn Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf neu gerllaw iddi.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. gwahardd cerbydau 2.85 metr o led neu'n lletach, ac eithrio cerbydau a ddefnyddir i gludo llwythi anwahanadwy annormal i ddepo Trafnidiaeth Cymru yn Ffynnon Taf, rhag mynd ar y darn o ffordd ymuno tua'r gogledd yr A470 yn Ffynnon Taf;

ii. gwahardd pob cerbyd rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn i. uchod pan fo llwythi anwahanadwy annormal yn cael eu danfon i ddepo Trafnidiaeth Cymru.

Y llwybr arall yw ymuno â'r A470 tua'r de yng Nghylchfan Cyfnewidfa Ffynnon Taf, mynd i Gyffordd 32 (M4) (Cyfnewidfa Coryton) a dychwelyd ar hyd cerbytffordd tua'r gogledd yr A470.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 5 Mai 2023. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn weithredol o 20:00 o'r gloch ar 5 Mai 2023 hyd 22:00 o'r gloch ar 16 Mehefin 2024 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Caiff llwythi anwahanadwy annormal eu cludo ar adegau wedi eu hamserlennu a chodir arwyddion i roi hysbysiad ymlaen llaw am gau'r ffyrdd.

Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Ffordd Ymuno tua'r Gogledd yn Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau Llydan Dros Dro) 2022(O.S. 2022/650 (Cy. 143)) a Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Ffordd Ymuno tua'r Gogledd yn Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2023(O.S. 2023/1 (Cy. 1)) wedi eu dirymu.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau

**THE A470 TRUNK ROAD (NORTHBOUND ENTRY SLIP ROAD AT TAFFS WELL, RHONDDA CYNON TAF) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS) ORDER 2023**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works and to permit the safe transportation of abnormal indivisible loads (AIL) (as defined in the Road Vehicle (Authorisation of Special Types) (General) Order 2003) on or near the A470 trunk road at Taffs Well, Rhondda Cynon Taf.

The effect of the Order is to temporarily:

i. prohibit vehicles of or over 2.85 metres wide, other than vehicles being used to transport AIL to the Transport for Wales depot at Taffs Well, from proceeding on the length of the A470 northbound entry slip road at Taffs Well;

ii. prohibit all vehicles from proceeding on the length of the trunk road described at i. above when AIL deliveries are being made to the Transport for Wales depot.

The alternative route is to join the southbound A470 at Taffs Well Interchange Roundabout, proceed to Junction 32 (M4) (Coryton Interchange) and return via the A470 northbound carriageway.

The Order comes into force on 5 May 2023. The temporary prohibitions are expected to operate from 20:00 hours on 5 May 2023 until 22:00 hours on 16 June 2024 or until the temporary traffic signs are permanently removed. The transportation of AILs will be undertaken at scheduled times and notice of closures will be signed in advance.

The A470 Trunk Road (Northbound Entry Slip Road at Taffs Well, Rhondda Cynon Taf) (Temporary Prohibition of Wide Vehicles) Order 2022 (S.I. 2022/650 (W. 143)) and the A470 Trunk Road (Northbound Entry Slip Road at Taffs Well, Rhondda Cynon Taf) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2023 (S.I. 2023/1 (W. 1)) are revoked.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before

yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government